
# COLEG Y CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHAS

## Llawlyfr Iechyd a Diogelwch Staff a Myfyrwyr

### Canllaw iechyd a diogelwch cyffredinol i staff a myfyrwyr





Mae'r llawlyfr hwn yn darparu Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch cyffredinol. Am wybodaeth yn ymwneud â Covid19, gweler y dolenni ar dudalen 4.

## MYNEGAI


| | |
|---|---|
| **RHAGARWEINIAD** | **3** |
| Y Coleg | 3 |
| Adnoddau Iechyd a Diogelwch Defnyddiol | 3 |
| Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch | 3 |
| **CYSYLLTIADAU A DOLENNI DEFNYDDIOL** | **4** |
| **TREFNIADAU MEWN ARGYFWNG** | **5** |
| Cymorth Cyntaf | 5 |
| Atal Tân | 5 |
| Ysmygu<br>Tân – Trefniadau Cyffredinol | 5 |
| Gweithdrefnau Tân i Bobl Anabl | 6 |
| Mannau Aros Diogel | 6 |
| Gweithdrefn Gadael Adeiladau pan fo Tân | 7 |
| **O DDYDD I DDYDD** | **8** |
| Cynefino | 8 |
| Hyfforddiant, Gwybodaeth a Chyfarwyddiadau | 8 |
| Asesiadau Risg | 8 |
| Gweithdrefn Adrodd am Ddamweiniau / Digwyddiadau | 8 |
| Adeiladau | 9 |
| Trydan / Dyfeisiau Trydanol Cludadwy | 9 |
| Digwyddiadau | 10 |
| Diogelwch Bwyd | 10 |
| Cyfrifiaduron / Cyfarpar Sgrin Arddangos - Staff | 11 |
| Teithio Dramor ar Fusnes y Brifysgol | 12 |
| Defnyddio Cerbydau, Bysiau Mini a Gyrru’n Ddiogel | 12 |
| Staff yn Gweithio y tu Allan i Oriau Arferol / ar eu Pennau eu Hunain | 13 |
| Pobl Anabl | 13 |
| Mamau Newydd a Mamau Beichiog | 13 |
| Iechyd a Lles Cyffredinol | 13 |
| Ymwelwyr | 13 |
| Gweithwyr Ifanc / Profiad Gwaith | 14 |

Cyfarpar Diogelu Personol 14

**GWEITHGAREDDAU RISG UWCH / GWYBODAETH BELLACH 15**

Codi a Chario 15

Sŵn 15

Gwaith Maes 15

Lleoliadau Myfyrwyr 15

Dronau / Awyrennau Bach Di-griw 16

Cyfarpar Cyfryngau 16

Ffilmio / Ffotograffiaeth 16

Mannau Cyfyngedig 17

Gweithio ar Uchder 17

Sylweddau Peryglus / Defnyddio Cemegion 18

Gwybodaeth Pellach 18

**Y COLEG**

Yr Ysgolion a’r Sefydliadau/Canolfannau canlynol sy'n ffurfio Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas (CCDGC).

- Ysgol y Celfyddydau a’r Dyniaethau (gan gynnwys Sefydliad Confucius ac Ieithoedd i Bawb)
- Ysgol y Gymraeg (gan gynnwys Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin)
- Ysgol Fusnes Albert Gubay
- Yr Ysgol Addysg Gogledd Cymru
- Ysgol y Gyfraith Gogledd Cymru

Mae'r Coleg yn dwyn ynghyd nifer o ddisgyblaethau cysylltiedig, gan gynnig ystod o gyrsiau a chyfleoedd ymchwil. Mae cyrsiau israddedig yn aml yn integreiddio i ddod â chymysgedd ddiddorol i ehangder y pynciau y gellir eu hastudio. Mae ein Canolfannau Ymchwil yn darparu cyfleoedd cydweithredol i staff a myfyrwyr ymchwil. Mae bod â chymysgedd mor amrywiol o gyfleoedd gwaith ac astudio yn golygu y bydd staff a myfyrwyr yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau e.e. gwaith maes, teithio (yn y Deyrnas Unedig a thramor), ymchwil gymdeithasol, ffilmio a ffotograffiaeth, lleoliadau ac ati, ac o'r herwydd, mae potensial y daw rhywun i gysylltiad ag amrywiol beryglon.

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am iechyd a diogelwch a rhywfaint o arweiniad os ydych yn ymgymryd â gweithgareddau risg uwch wrth weithio / astudio yng Ngholeg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas. Efallai mai'r cyngor pwysicaf yw, os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch eich iechyd a'ch diogelwch, stopiwch a gofynnwch am help.

**ADNODDAU DEFNYDDIOL O RAN IECHYD A DIOGELWCH A RHEOLAETH AMGYLCHEDDOL**

Mae'r llawlyfr hwn yn rhoi trosolwg cyffredinol yn unig o drefniadau rheoli iechyd, diogelwch ac amgylcheddol y Coleg, felly mae'n bwysig eich bod hefyd yn ymgyfarwyddo â'r dogfennau a'r adnoddau allweddol canlynol:

- Polisi Iechyd, Diogelwch a Rheolaeth Amgylcheddol CCDGC
- Adnoddau 'Teams' CCDGC (staff yn unig)
- Mae Llawlyfr Iechyd a Diogelwch Staff / Myfyrwyr Prifysgol Bangor yn cynnig gwybodaeth am iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd yn y Brifysgol.
- Mae llawer o wybodaeth a chanllawiau i'w cael ar Wefan Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd y Brifysgol. Ar y wefan hefyd ceir Ffurflenni, Polisïau a gweithdrefnau a nifer o ddogfennau templed i'ch helpu.
- Mae'r tudalennau Rheolaeth Amgylcheddol yn manylu ar waith y Brifysgol i ddiogelu'r amgylchedd.

**CYFRIFOLDEBAU IECHYD A DIOGELWCH**

Dirprwy Reolwr y Coleg yw Cydlynydd Iechyd a Diogelwch y Coleg ac mae'n atebol i Bennaeth y Coleg am drefniadau cyffredinol iechyd, diogelwch a rheolaeth amgylcheddol ar draws y Coleg.

O ddydd i ddydd, mae'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch yn cael cefnogaeth gan nifer o staff sydd wedi'u lleoli yn yr Ysgolion. Mae swyddfa ganolog y brifysgol ar gyfer iechyd, diogelwch a’r amgylchedd hefyd yn cynnig cyngor a chefnogaeth. Mae rhifau cyswllt allweddol i'w cael ar dudalen 3.

## CYSYLLTIADAU A DOLENNI DEFNYDDIOL

*Mae cyfleuster ar bob ffôn i ddeialu rhif y Gwasanaethau Brys yn uniongyrchol. Rhowch wybod i'r brif Ganolfan Ddiogelwch y Brifysgol yn Pontio os oes angen y Gwasanaethau Brys arnoch neu os ydych eisoes wedi eu galw'n uniongyrchol.*

**Y Gwasanaeth Tân, Ambiwlans neu'r Heddlu** (ffôn mewnol/Teams) **333 (neu 9999)**

**SYLWER**: Os nad oes ffôn mewnol, ychwanegwch '01248 38' cyn y rhifau 4 digid canlynol:

**Swyddfa Ddiogelwch (Pontio), 01248 382795 neu estyniad** 2795 o ffôn mewnol/Teams

**Cydlynydd Iechyd a Diogelwch y Coleg (Dirprwy Reolwr y Coleg)**
Rachel Parry rachel.parry@bangor.ac.uk, estyniad 8197

**Cefnogaeth Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion a Sefydliadau / Canolfannau**

Huw Powell (Ysgol y Celfyddydau a’r Dyniaethau), h.powell@bangor.ac.uk, estyniad 2977

Dr Gary Robinson (Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas), g.robinson@bangor.ac.uk, estyniad 2156

Dr Graham French (Ysgol Addysg Gogledd Cymru), g.k.french@bangor.ac.uk, estyniad 2693

Bethan Hughes (Ysgol Fusnes Albert Gubay), b.hughes@bangor.ac.uk

Dr Lina Davitt (Sefydliad Confucius), l.i.davitt@bangor.ac.uk, estyniad 2347 / 8555

**Swyddfa Iechyd a Diogelwch y Brifysgol** iechydadiogelwch@bangor.ac.uk**, estyniad** 3847 / 3854 / 2779

**Gwasanaethau Campws,** gwasanaethaucampws@bangor.ac.uk, estyniad 2783 / 2775

**Ymholiadau Yswiriant (Cyllid),** estyniad 2199

**Dolenni Defnyddiol**

- **Gwefan Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas**
- **Gwefan Swyddfa Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd (SIDA) y Brifysgol**
- **Gwybodaeth i Staff a Myfyrwyr am Covid19**
- **Dogfennau Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â Covid19**
- **Gwefan y Swyddfa Gyllid**
- **Gwefan y Gwasanaethau Campws**
- **Gwefan y Ganolfan Addysg Ryngwladol**
- **Gwefan Gwasanaethau Myfyrwyr**

## GWYBODAETH GYFFREDINOL MEWN ARGYFWNG

**CYMORTH CYNTAF**



Mae darpariaethau Cymorth Cyntaf ar gael yn y rhan fwyaf o adeiladau'r Brifysgol ac mae'r manylion i'w gweld ar bosteri Cymorth Cyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys Blychau Cymorth Cyntaf ac, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Swyddog Cymorth Cyntaf hyfforddedig ar y safle. Efallai y bydd pobl eraill yn cael Hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn dibynnu ar natur y gweithgareddau y byddant yn eu gwneud, er enghraifft, aelod o staff Academaidd sy'n goruchwylio gwaith maes myfyrwyr.

Ffoniwch y Swyddfa Ddiogelwch ar **2795 / 333** os nad oes Swyddog Cymorth Cyntaf ar gael yn lleol neu os oes angen galw'r Gwasanaethau Brys.

**ATAL TÂN**

Gall dilyn ychydig o fesurau syml leihau'r risg o dân yn sylweddol. Mae gwneud gwaith cynnal a chadw da, storio deunyddiau'n briodol, cadw drysau tân ar gau a diffodd cyfarpar trydanol (e.e. gwresogyddion) pan nad oes eu hangen i gyd yn helpu. Peidiwch byth â gadael na storio deunyddiau llosgadwy ar lwybrau dianc mewn argyfwng na rhwystro mynediad at flychau'r larwm tân, at fannau aros diogel neu at gyfarpar ymladd tân.

Rhaid i asesiadau risg ystyried y risgiau tân sy'n gysylltiedig â gweithgareddau i sicrhau bod trefniadau addas wedi cael eu sefydlu, a bod y rhai yr effeithir arnynt yn cael gwybod, er mwyn gwybod beth i'w wneud os aiff rhywbeth o'i le.

Dylech adrodd am unrhyw bryderon i'ch cyswllt diogelwch lleol neu i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch ar unwaith.

**YSMYGU**

Ni chaniateir ysmygu na defnyddio e-sigarennau o fewn unrhyw adeilad yn y Brifysgol, o fewn 5 medr i unrhyw adeilad o eiddo'r Brifysgol, nac yn unrhyw gerbyd o eiddo'r Brifysgol nac mewn cerbyd sydd wedi'i logi neu ei brydlesu ganddi. **SYLWER**: Yr unig eithriadau yw dwy ardal ysmygu ddynodedig: y tu allan i Adeilad Lloyd ac o dan gysgod y bwa sy'n arwain at Gwad Prif Adeilad y Brifysgol.

**TÂN - TREFNIADAU CYFFREDINOL**

Mae'n hanfodol eich bod yn deall y gweithdrefnau argyfwng ac unrhyw beryglon penodol ym mhob adeilad yr ydych yn eu defnyddio neu'n ymweld a nhw'n rheolaidd. Dylid trafod hyn yn eich sesiwn gynefino iechyd a diogelwch, gan gynnwys allanfeydd tân, llwybrau dianc rhag tân a beth i'w wneud os bydd y larwm tân yn canu. Gellir dod o hyd i wybodaeth, yn cynnwys Man Ymgynnull yr adeilad ar yr hysbysiadau ymateb tân sydd i'w gweld ym mhob adeilad.

Rhowch wybod i'ch Rheolwr Llinell, i'ch Tiwtor Personol neu i'ch cyswllt iechyd a diogelwch lleol os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw beth.

**PROFION LARWM TÂN AC YMARFERION GADAEL YR ADEILAD PE BAI TÂN**

Cynhelir profion larwm tân ym mhob adeilad a ddefnyddir gan Goleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes. Cewch wybod pryd bydd hyn yn digwydd. Hefyd, mae'r Coleg yn trefnu o leiaf un ymarfer gadael yr adeilad pe bai tân bob Semester ym mhob adeilad sydd dan ei reolaeth. Ac eithrio'r prawf larwm tân dylech **bob amser fynd allan o'r adeilad os bydd y larwm tân yn seinio**.

**GWEITHDREFNAU TÂN I BOBL ANABL**

Mewn argyfwng, efallai y bydd angen trefniadau penodol ar rai pobl er mwyn iddynt allu gadael yn ddiogel.

**Peidiwch byth â defnyddio'r lifft os yw'r larwm tân yn seinio**

Dywedwch wrth eich Rheolwr Llinell neu eich Tiwtor Personol os oes gennych amhariad sy'n golygu na fyddai modd i chi adael yr adeilad pe bai angen, fel y gellir gwneud trefniadau ar eich cyfer.

Mae cyngor cyffredinol ar gael ar Wefan y Swyddfa Iechyd a Diogelwch. Mae hyn yn cynnwys y ddogfen ''*Mynd o Gwmpas Prifysgol Bangor '* sy'n cynnwys gwybodaeth am Fannau Aros Diogel i'w defnyddio os na allwch adael yr adeilad yn defnyddio'r grisiau.

Weithiau, bydd angen Cynllun Personol Dianc mewn Argyfwng. Mae'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch yn trefnu hyn i staff gyda'r Swyddfa Iechyd a Diogelwch. Mae'r Gwasanaethau Anabledd yn goruchwylio'r broses hon ar gyfer myfyrwyr.

Disgwylir i staff roi gwybod i'w hymwelwyr am y trefniadau fel bo'r angen. Mae Taflen Wybodaeth ar gael ar wefan y Swyddfa Iechyd a Diogelwch i'w rhoi i ymwelwyr na allant adael yr adeilad yn defnyddio'r grisiau.

**MANNAU AROS DIOGEL**

Mannau dynodedig yw mannau aros diogel (gweler isod y gwahanol fathau a'r arwyddion ar eu cyfer) sy'n cynnig diogelwch rhag mwg a thân. Cânt eu defnyddio gan y rhai na allant fynd allan o'r adeilad yn defnyddio'r grisiau.

Yn y rhan fwyaf ohonynt, ceir intercom neu ffôn sy'n cysylltu â Thîm Diogelwch y Brifysgol fel y gallwch siarad â nhw. Mae cyfarwyddiadau clir i ddefnyddwyr i'w gweld ym mhob un o'r mannau aros diogel.

Nodir eu lleoliadau ym mhob adeilad hefyd yn y ddogfen ''*Mynd o Gwmpas Prifysgol Bangor '* fel y nodir uchod.










## GWEITHDREFN GADAEL ADEILADAU PAN FO TÂN

**Os byddwch yn darganfod tân:**

- Seiniwch y larwm **yn syth** yn defnyddio Blwch Larwm
- **Cysylltwch** ag adran Ddiogelwch y Brifysgol (estyniad **333 / 2795** ar ffôn mewnol/'Teams' neu **01248 38 2795**)
- **Os yw'n ddiogel gwneud hynny**, diffoddwch unrhyw gyfarpar a chau'r drysau
- **Gadewch** yr adeilad trwy'r allanfa ddiogel agosaf, a mynd i Fan Ymgynnull

**Pan glywch y larwm tân:**

### GWNEWCH Y CANLYNOL

- Rhowch y gorau i weithio ar unwaith
- Os yw'n ddiogel gwneud hynny, diffoddwch unrhyw gyfarpar a chau'r drysau
- Ewch yn syth i'r Man Ymgynnull dynodedig
- Rhowch wybod i'r staff diogelwch neu'r gwasanaethau brys am unrhyw gydweithwyr sydd ar goll neu sydd wedi dewis mynd i un o'r mannau aros diogel
- Peidiwch â dychwelyd i'r adeilad hyd nes y dwedir wrthych am wneud gan y staff Diogelwch neu'r Gwasanaethau Brys

### PEIDIWCH Â GWNEUD Y CANLYNOL

- Defnyddio'r lifft
- Mynd ag eiddo personol gyda chi, cario diodydd poeth ac ati
- Sefyll yn rhy agos at yr adeilad neu rwystro llwybrau brys
- Gadewch y Man Ymgynnull
- Mynd yn ôl i mewn i'r adeilad (hyd yn oed os yw'r larwm tân wedi stopio seinio) heb gael caniatâd gan y staff Diogelwch neu'r Gwasanaethau Brys i wneud hynny

**Os byddwch yn clywed arogl nwy neu'n amau bod nwy'n gollwng:**

- Diffodd yr holl ddyfeisiau nwy.  Diffoddwch bob fflam noeth, pob ffynhonnell gwres poeth ac unrhyw sigaréts
- <u>**PEIDIWCH**</u> â throi switshys trydan ymlaen neu i ffwrdd.
- **Os yw'n ddiogel gwneud hynny**, agorwch y ffenestri a'r drysau allanol, a chau'r holl ddrysau sy'n arwain at risiau
- Os yw'r arogl nwy'n gryf iawn, neu i'w glywed trwy'r adeilad cyfan, rhaid i bawb, ym mhob rhan o'r adeilad, adael.
- Rhowch wybod i'r staff Diogelwch ar 333 (ffôn mewnol) neu 01248 382795. Os nad oes unrhyw un ar gael, ffoniwch **WALES & WEST UTILITIES** ar **0800 111 999**
- Os oes arogl nwy y tu allan i adeilad, ffoniwch y Gwasanaethau Eiddo a Champws ar **2775** neu **01248 38 2775** neu Staff Diogelwch y Brifysgol ar **01248 38 2795**

## CYNEFINO

- **Staff:** Rhaid i staff newydd gwblhau rhaglen gynefino'r brifysgol sy'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol am iechyd a diogelwch. Yna, bydd y Coleg yn darparu sesiwn gynefino iechyd a diogelwch leol sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am iechyd a diogelwch, yn cynnwys trefniadau mewn argyfwng. Siaradwch â'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch os na fyddwch wedi cael sesiwn gynefino.
- **Myfyrwyr:** Bydd pob myfyriwr cofrestredig yn cael sesiwn gynefino iechyd a diogelwch gan y Coleg a chaiff modiwlau iechyd a diogelwch eu darparu yn rhan o gyrsiau yn ôl yr angen. Hefyd, mae'n ofynnol i Ddarparwyr Lleoliadau drin myfyrwyr fel gweithwyr yn ystod eu Lleoliad, mae hyn yn cynnwys darparu sesiwn gynefino iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'r amgylchedd gwaith a'r gweithgareddau fydd yn cael eu gwneud.

## HYFFORDDIANT, GWYBODAETH A CHYFARWYDDIADAU

Mae hyfforddiant iechyd a diogelwch yn hanfodol er mwyn bod yn gymwys ac i drosglwyddo gwybodaeth allweddol am risgiau iechyd a diogelwch ac arferion gwaith diogel a chamau rheoli cysylltiedig.

Efallai y bydd angen i chi gael hyfforddiant ychwanegol oherwydd natur eich swydd neu'ch astudiaethau. Os bydd staff yn nodi anghenion hyfforddiant, dylent gysylltu â'u Rheolwr Llinell neu â'u Cydlynydd Iechyd a Diogelwch; dylai myfyrwyr siarad â'u Tiwtor Personol neu â'u Darparwr Lleoliad. Hefyd, dylai Rheolwyr Llinell roi'r cyfle i staff drafod hyfforddiant yn eu Hadolygiad Datblygu Perfformiad blynyddol.

**Sylwer**: Dylid cadw cofnodion o bob sesiwn cynefino a hyfforddiant ffurfiol.

## ASESIADAU RISG

Archwiliad gofalus yw asesiad risg o'r hyn a allai achosi niwed (i bobl, i'r amgylchedd neu i asedau eraill) yn eich gwaith / astudiaethau, fel y gallwch benderfynu a ydych yn gwneud digon i reoli'r risgiau cysylltiedig neu a allwch wneud mwy i atal niwed rhag digwydd.

Mae Polisi Iechyd, Diogelwch a Rheolaeth Amgylcheddol y Coleg yn nodi pwy sy'n gyfrifol am asesiadau risg. Peidiwch byth â gwneud unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys peryglon sylweddol hyd nes bod **asesiad o'r risgiau ac** asesiad risg ysgrifenedig wedi eu gwneud. Dylid adolygu'r Asesiad Risg yn rheolaidd (hynny yw, o bryd i'w gilydd ac os bydd unrhyw newid, cwyn, digwyddiad ac ati) i sicrhau ei fod yn addas.

**Eglurwch** yr Asesiadau Risg wrth bawb y mae'r peryglon yn effeithio arnynt, gan sicrhau eu bod wedi deall y risgiau a'r camau rheoli angenrheidiol, a rhowch wybod **o'r newydd** am unrhyw asesiad risg diwygiedig. Fel rhan o'r gwaith o adolygu'r ddogfen, ni ddylid defnyddio'r fersiynau mwyach ond dylid cadw cofnod ohonynt. Mae cyngor ynglŷn ag Asesiadau Risg, yn cynnwys Templedi ar gyfer nifer o wahanol weithgareddau ar gael ar Wefan y Swyddfa Iechyd a Diogelwch.

## GWEITHDREFN ADRODD AM DDAMWEINIAU / DIGWYDDIADAU

Rhowch wybod am bob damwain a digwyddiad, gan gynnwys rhai y bu bron iddynt â digwydd, fel y gellir ymchwilio iddynt er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ac i atal hyn rhag digwydd eto. Os

ydych chi'n rhan o ddigwyddiad, neu os gwelsoch chi rywbeth yn digwydd, dylech wneud y pethau canlynol:

- Cael gafael ar Ffurflen Adrodd am Ddamwain neu Ddigwyddiad o'r wefan Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Llenwch y Ffurflen tra bo'r manylion yn glir a'r tystion ar gael.
- Dychwelwch y Ffurflen wedi'i chwblhau (o fewn 7 diwrnod i'r digwyddiad) at y Cydlynydd Iechyd a Diogelwch a fydd yn anfon copi at y Swyddfa Iechyd a Diogelwch.

**Dylid adrodd am farwolaethau, anafiadau difrifol, clefydau a digwyddiadau peryglus ar unwaith i'r swyddfa Iechyd a Diogelwch ar 3847.**

**ADEILADAU**




Peidiwch byth ag ymyrryd â strwythur adeilad (hyd yn oed taro hoelen i'r wal i ddal llun), nac ymyrryd â gwasanaethau adeilad nac ymyrryd ag unrhyw beth sydd â label coch a du arno sy'n dangos bod asbestos yn bresennol.

Rhowch wybod i'ch cyswllt diogelwch lleol, i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch, neu'n uniongyrchol i'r Gwasanaethau Eiddo a Champws (estyniad 2783) am unrhyw bryderon am adeiladau neu am unrhyw waith sy'n golygu y bydd angen ymyrryd ar isadeiledd. Cysylltwch â'r staff diogelwch **2795** os bydd materion brys yn codi y tu allan i oriau gwaith arferol.

**TRYDAN / DYFEISIAU TRYDANOL CLUDADWY**

Y Gwasanaethau Eiddo a Champws sy'n cynnal a chadw'r system drydanol sefydlog (hynny yw, hyd at y socedi). Mae'r Coleg wedi sefydlu'r weithdrefn ganlynol i sicrhau'r bod eitemau trydanol y tu hwnt i'r socedi yn cael eu defnyddio'r ddiogel.

- **Cyfarpar a Chyflenwadau:**
  - Caiff dyfeisiau trydanol cludadwy eu harchwilio a'u profi (prawf PAT) yn ôl amserlen addas a gosodir label ar yr eitemau i ddangos eu bod wedi cael eu profi.
- **Diogelwch Trydanol Cyffredinol: Pob Aelod Staff, Myfyriwr ac Ymwelydd:**
  - Mae'n rhaid cynnal prawf PAT ar unrhyw eitemau trydanol 'a ddygir i mewn' cyn y gellir eu defnyddio yn y Brifysgol.
  - **Mae gwiriadau gweledol yn hanfodol**. Gwiriwch gyfarpar trydanol cludadwy'n rheolaidd.
  - Peidiwch byth â gorlwytho socedi. Dylech agor ceblau ymestyn yn llwyr ond wedi gwneud gwnewch yn siŵr nad oes perygl i bobl faglu drostynt.
  - Cadwch ddeunyddiau llosgadwy draw oddi wrth wresogyddion trydan a diffoddwch wresogyddion os na fydd unrhyw un wrth law i gadw llygad arnynt.
  - Peidiwch â defnyddio eitem os ydych yn poeni am ei diogelwch - rhowch wybod ar unwaith am yr hyn sy'n eich pryderu.

Rhowch wybod am unrhyw bryderon am y system drydanol 'sefydlog' i'r Gwasanaeth Eiddo a Champws **2783** neu i'r staff Diogelwch y tu allan i oriau **2795 / 333.**

**DIGWYDDIADAU**

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch a Digwyddiadau'n manylu ynglŷn â gofynion cynllunio digwyddiadau. I grynhoi, rhaid enwebu unigolyn addas i fod yn 'Arweinydd y Digwyddiad' i sicrhau bod yr holl fesurau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol angenrheidiol ar waith, er enghraifft sicrhau bod Asesiad Risg addas wedi ei lunio ar gyfer y digwyddiad.

Os bydd plant yn dod i'r digwyddiad rhaid nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am eu lles tra byddant ar safle'r Brifysgol, beth yw'r trefniadau goruchwylio ac ati.

Cofiwch hefyd, os ydych yn noddi sefydliad allanol, o'r tu allan i'r Brifysgol, i gynnal digwyddiad yn y Brifysgol, y byddwch yn parhau i fod yn gyfrifol am drefniadau iechyd a diogelwch a threfniadau amgylcheddol.

**DIOGELWCH BWYD**


Dylid trefnu arlwyo ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd trwy Wasanaeth Cynadledda ac Arlwyo'r Brifysgol. Rhaid i staff a myfyrwyr sy'n dymuno gwerthu cacennau neu gynnal digwyddiadau tebyg roi gwybod i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch.  Yna gellir darparu canllawiau Diogelwch Bwyd Cyffredinol ac mae'n rhaid eu dilyn.

**CYFRIFIADURON / CYFARPAR SGRIN ARDDANGOS - STAFF**

Mae'r Coleg yn ystyried bod yr holl staff yn 'ddefnyddwyr cyfarpar sgrin arddangos' (fel y'i diffinnir gan y polisi Defnyddio Cyfrifiaduron yn Ddiogel (Cyfarpar Sgrin Arddangos)). Rhaid i bob aelod staff gwblhau'r hyfforddiant a'r hunanasesiad ar-lein ar gyfarpar sgrin arddangos ar ôl dechrau gweithio ac yna bob 5 mlynedd oni bai bod newidiadau'n digwydd e.e. swyddfa newydd, pryderon am iechyd. Ar ôl cwblhau'r hunanasesiad ar-lein ar gyfarpar sgrin arddangos, caiff ei anfon yn awtomatig at yr aseswr cyfarpar sgrin arddangos perthnasol yn yr ysgol i'w adolygu ac, os oes angen, i weithredu yn ei gylch.

Mae'r Brifysgol yn ad-dalu cost profion llygaid i staff sy'n gweithio gyda chyfarpar sgrin arddangos ac yn cyfrannu swm penodol tuag at gost sbectol os oes angen sbectol i weithio'n ddiogel gyda chyfarpar sgrin arddangos.

Mae amrywiaeth o wybodaeth am ddefnyddio cyfarpar sgrin arddangos (staff a myfyrwyr) ar gael ar Wefan y Swyddfa Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd.




Mae'n bwysig addasu'r cynhaliwr cefn, uchder y sedd a'i gogwydd (os oes modd) er mwyn sicrhau bod:

- Y cluniau a gwaelod y coesau yn sgwâr â'i gilydd
- Y cluniau'n gyfochrog â'r llawr ac wedi eu cynnal gan y sedd
- Y traed yn fflat ar y llawr, heb fod y sedd yn gwasgu gormod *(gellir defnyddio cynhaliwr traed i gyflawni hyn)*
- Y cefn yn syth a bod gwaelod y cefn yn cael ei gynnal gan y cynheilydd cefn
- Yr ysgwyddau'n llac
- Y breichiau'n llorweddol wrth deipio

**TEITHIO DRAMOR AR FUSNES Y BRIFYSGOL**

Mae'r Brifysgol yn darparu Yswiriant Teithio am ddim (sydd ar gael drwy lenwi ffurflen ar-lein ar wefan yr Adran Gyllid). Mae'n rhaid i staff a myfyrwyr gyflwyno'r ffurflen hon os ydynt yn teithio dramor ar fusnes y Brifysgol.

Yn unol â Pholisi Teithio Tramor y Brifysgol, mae angen Asesiad Risg os ydych yn teithio dramor. Os ydych yn teithio i wlad risg isel a bod y gweithgaredd yn risg isel (e.e. cynhadledd yn Ewrop), mae llenwi ffurflen Yswiriant Teithio ar-lein y brifysgol yn ddigonol fel rheol.

Ar gyfer teithiau risg uwch, mae angen Asesiad Risg penodol. Rhaid i uwch staff y Brifysgol hefyd awdurdodi'n benodol unrhyw deithiau i ardaloedd y mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynghori pobl i beidio â theithio iddynt oni bai ei fod ar fusnes hanfodol **NEU'N** cynghori pobl i beidio â theithio i'r ardaloedd hynny ar unrhyw gyfrif.

Os ydych yn dymuno teithio i'r mannau hyn, e-bostiwch y Cydlynydd Iechyd a Diogelwch gyda'r holl ddogfennaeth angenrheidiol **o leiaf 4 wythnos cyn y dyddiad teithio**. Mae cyfoeth o wybodaeth teithio ar gael ar wefan y Swyddfa Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

**DEFNYDDIO CERBYDAU, BYSIAU MINI A GYRRU'N DDIOGEL**

Rhaid i'r Brifysgol sicrhau diogelwch gyrwyr a theithwyr sy'n gyrru ar fusnes y Brifysgol. Yn gyffredinol, mae'r Coleg yn cynghori defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ddefnyddio cyflenwr trafnidiaeth sefydledig i drefnu, er enghraifft, llogi ceir, bysys, bysys mini a gyrrwr.

Mae'r canlynol yn crynhoi pwyntiau allweddol o'r Polisi Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau a'r Polisi Diogelwch Bysiau Mini:

- **Cerbydau:** Rhaid i gerbydau y mae'r Brifysgol yn berchen arnynt neu sydd wedi eu llogi neu eu prydlesu gan y Brifysgol fod yn addas i'r ffordd fawr, yn gyfreithlon i deithio ar y ffordd fawr ac yn addas i'r diben. Hefyd, rhaid cynnal archwiliadau diogelwch wythnosol ar y cerbyd a'u cofnodi.
- **Y Gyrrwr:**Rhaid i unrhyw un sy'n gyrru cerbyd o eiddo'r Brifysgol neu gerbyd a logwyd neu a brydleswyd ganddi, gyflwyno crynodeb cyfredol o'u trwydded yrru, bob blwyddyn, i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch (ar gael o wefan DVLA -www.gov.uk/view-driving-licence). Caiff y crynodeb o'r drwydded ei wirio i sicrhau bod Categorïau'r Drwydded Yrru'n addas i'r gyrrwr gael gyrru'r cerbyd dan sylw. Rhaid i yrwyr hefyd lofnodi Ffurflen Awdurdodi Gyrwyr.
- **Hawlio Milltiroedd Busnes:** Rhaid i unrhyw berson sy'n defnyddio eu cerbyd eu hunain ac sy'n hawlio milltiroedd busnes fod â 'defnydd busnes' ar eu hyswiriant cerbyd.
- **Bysiau mini:** Mae gofynion penodol yn berthnasol i'r rhai sy'n gyrru bysiau mini ar fusnes y Coleg, er enghraifft, cyfyngiadau oedran (sy'n wahanol i gyfyngiadau oedran Undeb y Myfyrwyr), hyfforddiant MIDAS, arddangos Trwydded Bws Adran 19 ym mhob bws mini a yrrir.

**STAFF YN GWEITHIO Y TU ALLAN I ORIAU ARFEROL / AR EU PENNAU EU HUNAIN**

Nid ydym yn annog gweithio y tu allan i oriau arferol (hynny yw, 8am - 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener). Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gweithio mewn adeilad y tu allan i oriau arferol ofyn am ganiatâd drwy ffurflen ar-lein Gwasanaethau Campws.

Weithiau, gwneir rhai gweithgareddau, megis gwaith ymchwil maes, ar eich pen eich hun i ffwrdd o'r Brifysgol. Bydd rhaid gwneud Asesiad Risg penodol mewn sefyllfa o'r fath i sicrhau bod camau rheoli addas yn eu lle i reoli unrhyw risg. Er enghraifft, nodi personau cyswllt a all ddarparu cefnogaeth mewn argyfwng, gweithdrefnau dychwelyd galwadau a dwysáu, cwblhau'r gweithgaredd yng ngolau dydd. Gweler Gwefan y Swyddfa Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd am arweiniad.

**POBL ANABL (gweler Trefniadau mewn Argyfwng mewn perthynas â Chynlluniau Personol Dianc mewn Argyfwng)**

Dylai staff roi gwybod i'w Rheolwr Llinell neu'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch os oes angen addasiadau arnynt i'w cynorthwyo tra byddant yn y gwaith.

Dylai myfyrwyr gysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd, a fydd wedyn yn cysylltu â'r Ysgol berthnasol ac eraill i gefnogi'r myfyriwr - mae gan y rhan fwyaf o Ysgolion Diwtor Anabledd Myfyrwyr dynodedig.

**MAMAU NEWYDD A MAMAU BEICHIOG**

Anogir mamau newydd a mamau beichiog (staff a myfyrwyr) i roi gwybod i'w Rheolwr Llinell, i'w Tiwtor Personol neu i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl. Mae hyn er mwyn sicrhau bod Asesiad Risg yn cael ei baratoi ac y gwneir darpariaethau priodol i gefnogi'r fam a'r plentyn sydd heb ei eni. Bydd yr adran Adnoddau Dynol yn cynghori staff ynghylch tâl / absenoldeb mamolaeth, tadolaeth ac ati. Bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynghori myfyrwyr mewn perthynas â'u hastudiaethau.

**IECHYD A LLES CYFFREDINOL**

Dylai staff roi gwybod i'w Rheolwr Llinell os ydynt yn bryderus bod eu gwaith yn effeithio ar eu hiechyd neu os oes amgylchiadau unigol, megis salwch, lle mae'n ofynnol gwneud addasiadau i'w cefnogi. Os na all staff siarad â'u Rheolwr Llinell, dylent gysylltu â'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol neu â'r adran Adnoddau Dynol.

Dylai myfyrwyr sydd â phryderon tebyg sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau, roi gwybod i'w Tiwtor Personol yn y lle cyntaf. Gall y Gwasanaethau Myfyrwyr hefyd gynnig cyngor a chefnogaeth.

**YMWELWYR**

Rhaid i ymwelwyr gael eu hamddiffyn rhag risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch yn yr un modd â staff a myfyrwyr.

Rhaid i Academyddion ar Ymweliad a lleoliadau astudio/gwaith sy'n digwydd yn y Coleg gael eu hawdurdodi gan Bennaeth yr Ysgol a rhaid iddynt ddilyn gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch a Rheolaeth Amgylcheddol y Brifysgol a'r Coleg. Ystyrir bod y person sy'n gwahodd yr Academydd ar Ymweliad / yr unigolyn yn gyfrifol am yr ymwelydd a rhaid iddo sicrhau bod trefniadau addas yn eu lle. Er enghraifft, sesiwn gynefino iechyd a diogelwch, goruchwylio, cyfarwyddyd a hyfforddiant.

**GWEITHWYR IFANC / PROFIAD GWAITH**

Mae polisïau penodol yn bodoli yn y Brifysgol i sicrhau diogelwch unrhyw blentyn (dan 16 oed) neu berson ifanc (rhwng 16 a 18 oed) sy'n gwneud lleoliadau gwaith yn y Brifysgol.

**Cyn** i staff gytuno ar unrhyw leoliad gwaith, mae'n rhaid iddynt gael cymeradwyaeth Pennaeth yr Ysgol. Ar ôl cael cymeradwyaeth, rhaid i'r staff roi gwybod i'r adran Adnoddau Dynol ac i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch, gan gyflwyno'r ffurflenni adnoddau dynol perthnasol wedi eu llenwi i'r adran Adnoddau Dynol **o leiaf 8 wythnos cyn** i'r lleoliad ddechrau.

Rhaid paratoi Asesiad Risg penodol, a awdurdodwyd gan y Cydlynydd Iechyd a Diogelwch cyn i'r lleoliad ddechrau er mwyn sicrhau bod trefniadau addas ar waith e.e. Sesiwn Gynefino Iechyd a Diogelwch, Goruchwyliaeth. Hefyd, rhaid rhoi copi o'r Asesiad Risg i'r person dan sylw.

**CYFARPAR DIOGELU PERSONOL**

Mewn achosion prin, efallai y bydd angen i chi wisgo Cyfarpar Diogelu Personol i wneud gweithgaredd. Bydd y Coleg yn ei ddarparu am ddim i'w staff ac i'r mwyafrif y rhan fwyaf o'r amser. Os oes angen Cyfarpar Diogelu Personol mae'n rhaid i chi ddilyn pob hyfforddiant, cyfarwyddyd ac arwydd perthnasol.

Ond cofiwch fod cyfarpar diogelu personol yn rhywbeth personol. Nid yw un maint yn addas i bawb, felly gwnewch yn siŵr bod y cyfarpar diogelu personol yn ffitio'n iawn a rhowch wybod i rywun (e.e. eich Goruchwyliwr Academaidd, Rheolwr Llinell) ar unwaith os yw'r cyfarpar yn anaddas neu os nad ydych yn siŵr sut i'w ddefnyddio.

**CODI A CHARIO**

Weithiau, efallai y bydd angen i chi gyflawni tasgau codi a chario, er enghraifft cario deunyddiau a chyfarpar fel rhan o daith maes archaeoleg. Dyma rai awgrymiadau syml i osgoi risgiau wrth godi a chario:

- Gofynnwch am gyfarwyddyd ar sut i gyflawni tasg yn ddiogel.
- Ceisiwch osgoi codi a chario gwrthrychau mawr / trwm - rhannwch y llwyth os oes modd.
- Cynlluniwch y dasg gyda chymorth pobl eraill, gan sicrhau eich bod i gyd yn deall y cynllun!
- Defnyddiwch droli neu gyfarpar tebyg os oes un ar gael.
- Dywedwch wrth rywun am unrhyw broblemau a allai eich effeithio wrth gyflawni tasgau codi a chario.

**SŴN**

Mae'r Coleg yn gwneud pob ymdrech i brynu cyfarpar sy'n cynhyrchu cyn lleiaf o sŵn a dirgryniadau â phosibl. Hefyd, yn aml gellir rheoli amlygiad i sŵn a dirgryniadau trwy reoli tasgau megis trwy gyfyngu ar faint o amser mae rhywun yn ei dreulio'n cyflawni'r dasg neu gylchdroi tasgau yn ddyddiol ac yn wythnosol.

Os nad yw'r dull hwnnw'n ddigonol, rhaid darparu cyfarpar diogelu personol addas (e.e. amddiffynwyr clustiau). Mewn rhai achosion, pennir Ardaloedd Diogelu Clyw Gorfodol, lle bydd yn rhaid gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol, a bydd arwyddion yn rhybuddio pobl o hynny. Peidiwch â mynd i ardaloedd o'r fath oni bai bod gennych awdurdod i wneud hynny a bod gennych y Cyfarpar Diogelu Personol addas.

**GWAITH MAES**

Rhaid gwneud gwaith maes yn unol â gofynion Polisi Gwaith Maes y Brifysgol sy'n cynnwys iechyd a diogelwch ac ystyriaethau eraill megis cynnwys cost hyfforddiant angenrheidiol mewn Cynigion Ymchwil.

Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud gwaith maes sicrhau bod Asesiad Risg wedi'i baratoi a bod trefniadau addas wedi eu rhoi ar waith. Rhaid i gyfranogwyr dderbyn yr asesiad risg mewn da bryd a sicrhau eu bod yn deall ei gynnwys ac unrhyw drefniadau, yn enwedig y rhai maent yn gyfrifol amdanynt eu hunain (e.e. gwisgo esgidiau cerdded ar daith maes, costau).

Dylid hefyd lenwi Ffurflen Gofrestru Taith ar gyfer gwaith maes grŵp i ffwrdd o'r Brifysgol gan roi copi i berson cyswllt yn yr Ysgol (e.e. Pennaeth yr Ysgol), i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch ac i'r staff Diogelwch tra pery'r sesiwn.

**LLEOLIADAU MYFYRWYR**

Mae'r Coleg yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Ddysgu ar Leoliad (Ansawdd) a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch a restrir ynddo. Yna bydd trefniadau penodol yn berthnasol i leoliadau tramor gan gynnwys, mewn llawer o achosion, gefnogaeth ac arweiniad ychwanegol y Ganolfan Addysg Ryngwladol.

Rhaid nodi aelod o staff y Brifysgol (e.e. Trefnydd y Modiwl) a Pherson Cyswllt yn y Lleoliad ar gyfer pob Lleoliad. Hefyd, cofiwch y dylai Darparwyr Lleoliadau drin myfyrwyr fel un o'u gweithwyr tra bônt ar leoliad gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys darparu sesiwn gynefino ar iechyd a diogelwch, asesiad risg, cyfarpar diogelu personol ac ati.

**DRONAU / AWYRENNAU BACH DI-GRIW**

Byddwch yn ymwybodol na chaiff unrhyw aelod o staff na myfyriwr weithredu dronau ar fusnes y Brifysgol na hedfan eu drôn personol eu hunain uwch tir y Brifysgol heb ganiatâd ysgrifenedig y Swyddfa Iechyd a Diogelwch. Os ydych yn bwriadu defnyddio drôn, cysylltwch â'r Swyddfa Iechyd a Diogelwch i drafod y gofynion penodol sy'n berthnasol.

**CYFARPAR CYFRYNGAU**

Dim ond ar gyfer Gwaith Cwrs y gellir defnyddio cyfarpar cyfryngau (e.e. camerâu, recordwyr sain). Rhaid archebu'r eitemau o'r storfa yn Neuadd JP rhwng 9am a 9.30am a rhwng 4.00pm a 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'n rhaid i chi ddangos eich cerdyn llyfrgell wrth lofnodi am y cyfarpar.

**FFILMIO / FFOTOGRAFFIAETH**

Yn rhyfedd ddigon, gall ffilmio a ffotograffiaeth fod yn eithaf peryglus. Gallwn ganolbwyntio cymaint ar edrych trwy ffenestr y camera nes anghofio beth arall sy'n digwydd o'n cwmpas a thrwy fod yn benderfynol o gael 'y llun' gallwn wthio'r ffiniau o ran yr hyn sy'n ddiogel, er enghraifft dringo coeden i fod ychydig yn uwch. Hefyd, gallwn anghofio weithiau nad yw rhai pobl eisiau cael eu ffilmio neu gael tynnu eu llun!


Mae'n ofynnol i bob myfyriwr sy'n ymgymryd â ffilmio neu ffotograffiaeth gwblhau Asesiad Risg. Mae angen Ffurflenni Cydsynio hefyd wrth gynnal cyfweliadau neu berfformiadau'n defnyddio actorion. Mae'n ofynnol cael Cydsyniad Rhiant os oes plant dan 16 oed yn cymryd rhan yn y project.

**MANNAU CYFYNGEDIG**

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r mannau cyfyngedig y mae'n rhaid cael awdurdod penodol i fynd iddynt oherwydd natur y gwaith a / neu'r cyfarpar a'r deunyddiau a ddefnyddir ynddynt:

| Mannau | Lleoliad | A Oes Angen Awdurdod Penodol | A Oes Angen Sesiwn Gynefino Benodol |
|---|---|---|---|
| Neuadd JP - defnyddio offer y theatr e.e. trydan a'r goleuadau llwyfan | Neuadd JP | Oes | Oes |
| Stiwdio Radio | Neuadd JP | Oes | Oes |
| Ystafelloedd Cyfryngau | Neuadd JP | Oes | Nac oes |
| Ystafelloedd Ymarfer Cerddoriaeth | Adeilad Cerddoriaeth / Prif Adeilad y Celfyddydau / Gartherwen | Oes | Nac oes |
| Stiwdios Cerddoriaeth | Prif Adeilad y Celfyddydau | Oes | Oes |
| Labordai gwyddoniaeth – defnyddio'r cemegion a'r offer yn y storfeydd. | Nantlle, Safle’r Normal | Oes | Oes |
| Offer addysg awyr agored | Padarn, Safle’r Normal | Oes | Oes |

**GWEITHIO AR UCHDER**



Yn Neuadd JP mae cyfarpar o'r enw 'tallescope'. Oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r 'tallescope', gwaherddir ei ddefnyddio **oni bai bod rhywun wedi cael hyfforddiant a chyfarwyddyd penodol** gan y Rheolwr Technegol a Thiwtor Ymarfer y Cyfryngau ac Undeb y Myfyrwyr. Mae hefyd wedi'i ddiogelu gyda chadwyn a chlo clap i atal pobl rhag ei ddefnyddio heb awdurdod.

Gan mai cymdeithasau myfyrwyr (e.e. ROSTRA, SODA) sy'n defnyddio'r 'tallescope' yn bennaf mae Undeb y Myfyrwyr yn hwyluso'r defnydd a wneir ohono trwy weithredu gweithdrefn 'arwyddo i mewn ac allan' i sicrhau mai dim ond i fyfyrwyr hynny sydd wedi cael hyfforddiant y rhoddir yr allweddi.

Rhaid i ddefnydd yr ysgol yn y stiwdios cerddoriaeth fod yn unol â'r canllawiau hyn.

**SYLWEDDAU PERYGLUS/DEFNYDDIO CEMEGAU**

Fel rhan o'ch gwaith/astudiaethau efallai y bydd rhaid i chi weithio gyda chemegau (e.e. labordai, gweithdy).




I reoli risgiau:

- Darllenwch y cyfarwyddiadau/labeli perygl ar gynwysyddion. Dilynwch y cyfarwyddiadau am sut i'w defnyddio.
- Bydd cyfarpar diogelu personol yn cael eu trafod yn ystod y sesiwn gynefino iechyd a diogelwch/sesiwn wybodaeth cyn gweithgareddau lleol. Defnyddiwch gyfarpar diogelu personol addas ar gyfer y deunydd a chi (hynny yw, maneg, cot labordy, maint).
- Rhaid i Asesiad Risg/COSHH fod yn ei le, yn briodol i'r sylweddau a ddefnyddir (yn cynnwys crynodiad, cymysgeddau, ffurf) a sut i'w defnyddio.
- Defnyddiwch lwferau gwyntyllu dan gyfarwyddyd yr Asesiad COSHH.
- Storiwch gemegau a chemegau gwastraff yn gywir e.e. wedi'u gwahanu, eu byndio.
- Cael gwared â chemegau gwastraff yn unol â'r Asesiad COSHH.
- Os nad ydych yn gallu cael gwared â chemegau gwastraff yn ddiogel yn fewnol, trefnwch eu gwaredu drwy'r Casgliadau Gwastraff Cemegol a drefnir gan y Swyddfa Iechyd a Diogelwch.

**GWYBODAETH BELLACH**

**Gellir cael rhagor o wybodaeth am Iechyd a Diogelwch yn y Brifysgol yma:**

https://www.bangor.ac.uk/hss/index.php.cy

Fel arall, gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau'n ymwneud â materion Iechyd a Diogelwch at Ddirprwy Reolwr y Coleg: rachel.parry@bangor.ac.uk / 01248 388197.